BYDD Y DDAEAR YN AROS AM BYTH

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi mai rhodd Duw ydi'r ddaear, a'u hatgoffa nhw bod ei fwriad o gael y teulu dynol perffaith i fyw arni am byth, yn ddigyfnewid. Pwysleisiwch mor agos 'rydym 'nawr at weld hyn yn dod yn realiti. Dangoswch sut bydd llawer sy'n fyw 'nawr yn cael rhan yn nhrawsnewid y ddaear fel y bydd yn gartre' Paradwys parhaol, er clod i Jehofah

Y DDAEAR—RHODD HYFRYD DUW I DDYNOLIAETH (5 mun.)

Fe greodd Duw'r ddaear a chyhoeddi ei bod "yn dda iawn" (Gen 1:1, 31)

Fe roddodd Duw'r ddaear i ddyn yn gartre' parhaol (Salm 115:16)

Mae'r ddaear wedi'i chynllunio'n berffaith ac yn fwriadol er mwyn i ddyn fyw arni (Eseia 45:18; *g*95 4/22 28; *ce* 130-1)

Mae gwyddonwyr wedi cael eu hysgogi i ganmol cynllun rhyfeddol y rhodd hon, ac mae gofodwyr wedi dweud am y rhodd unigryw ei bod fel "gem yn sgleinio yn y gofod" (*g*95 11/22 8-10; *ce* 129)

SUT MAE GWYBOD FOD Y DDAEAR I FOD YN GARTRE' PARHAOL INNI? (7 mun.)

Mae'r ddaear "yn aros am byth" (Preg 1:4)

Fe fydd yn gartre' perffaith, tragwyddol, yn medru cynnal bywydau bodau dynol, anifeiliaid, a chreaduriaid byw eraill

Wedi'i chynllunio i bara am byth, ac iddi gylchoedd a dulliau cymhleth i gynnal bywyd (*ce* 140-1)

Mae 'cyfamod Duw â'r dydd a'r nos' yn brawf pendant y bydd y ddaear yn aros am byth (Jer 33:20, 25, 26; Gen 1:14-19)

Mae e'n cadw at ei fwriad gwreiddiol ar gyfer Adda ac Efa heb gefnu arno (Gen 1:27, 28; Eseia 55:11; *rs* 116; *it*-1 667-8)

YDI'R DDAEAR WEDI'I NIWEIDIO Y TU HWNT I'W HADFER? GAIFF HI EI LLOSGI'N ULW? (14 mun.)

Mae sawl rhybudd wedi'u seinio yn fyd eang ynglŷn â chamdrin yr amgylchedd (*g*97 1/8 3-4; *w*91 4/1 6-7)

Mae llygredd ac eraill o ganlyniadau hunanoldeb yn bygwth gallu'r ddaear i gynnal bywyd (*g*95 10/8 31; *g*93 10/22 11; *g*93 11/8 28)

Mae'r problemau wedi'u gwneud yn waeth gan gynnydd y boblogaeth a'r galw cynyddol gan bobl am nwyddau traul (*g*88 5/8 5-6)

Dyw'r difrod i'r amgylchedd sy'n ganlyniad i ddyn yn camweinyddu'r ddaear ddim y tu hwnt i'w atgyweirio

Mae ecosystemau'r ddaear yn medru'u hadfer eu hunain i'w cyflwr gwreiddiol (*w*98 6/15 5)

Fe gynlluniodd Jehofah y ddaear gyda'r gallu i'w glanhau a'i hatgyweirio'i hun (*g*90 5/8 10-11)

Mae camdrin y ddaear yn dangos dyfnach argyfwng ysbrydol—dynion yn hunanol anwybyddu'u hepil eu hunain a phwrpas y Creawdwr (Deut 32:5; Preg 7:29; *g*93 1/22 9; *g*88 5/8 7-8)

Mae Duw am "ddinistrio'r rhai sy'n dinistrio'r ddaear" (Dat 11:18)

Chaiff y ddaear odidog ei chynllun fyth mo'i dinistrio, na'i llosgi, na'i gwneud fel ei bod yn amhosib' byw arni (Salm 93:1; Eseia 66:1; Math 5:35)

Afresymol fyddai hynny a chroesddweud bwriad penodol Duw (Salm 37:29; Jer 27:5)

Nid yn erbyn y ddaear mae llid Jehofah, ond yn erbyn y rhai sy'n ei difetha—ac mi fydd yn eu difa nhw cyn bo hir (Salm 37:9; *g*93 1/22 10-11)

Mae llawer o adnodau yn y Beibl sy'n sôn am y nefoedd a'r ddaear "wedi eu gosod . . . ar gyfer y tân," a'r ddaear "yn cael ei llosgi" wedi'u camddeall, a phobl yn credu eu bod yn golygu y bydd Duw yn dinistrio'r ddaear (2Pedr 3:7, 10, troednodyn*; g*97 1/8 27; *rs* 113-6)

Siarad yn ffigyrol neu symbolaidd mae gosodiadau o'r fath, gan gyfeirio'n hytrach at ddifa cymdeithas ddynol annuwiol ar y ddaear, fel digwyddodd yn Nilyw oes Noa (Gen 6:5-7; 2Pedr 3:5-7)

Fe fydd Duw yn arbed y ddaear rhag ei difa drwy ddinistrio'r drefn ddrygionus hon a bwrw Satan i'r pydew (Dat 16:14, 16; 20:1, 2; *rs* 437)

Braf ydi deall y bydd 'na rai cyfiawn yn goroesi, a nhw fydd cnewyllyn "daear newydd" (2Pedr 3:13; Diar 2:21, 22)

SICRWYDD ADFER DAEAR BARADWYS (12 mun.)

Mae'r gallu gan Dduw i weddnewid pethau, ac fe fydd yn gwneud hynny'n fuan (Rhuf 16:20; Dat 21:1-3)

Yn wahanol i fodau dynol gwan ac amherffaith, gwrthrychau "hap a damwain," 'does dim rhaid i Jehofah newid ei fwriad gwreiddiol (Preg 9:11; Eseia 14:24; Mal 3:6)

Er bod toriad dros dro wedi bod ar ei fwriad, mi fydd yn llwyddo (*w*98 6/15 8)

Yn gyntaf, mi fydd Duw yn delio â Satan, prif halogwr a llygrwr y ddaear (Dat 20:1-3; *g*88 5/8 9)

A dylanwad Satan wedi mynd, mi fydd cyfnod newydd bendigedig yn cychwyn yn hanes y rhai sy'n goroesi,—fe gân' nhw'r gwaith pleserus o droi'r ddaear yn gartre' paradwys hyfryd (*dg* 22-3)

Perthyn i'r gorffennol fydd drygioni a dioddefaint (Salm 145:16; Dat 21:5; *kl* 6-11; *pr* 29-30)

Mi fydd 'na filiynau dirifedi—rhai fydd yn goroesi Armagedon, rhai wedi'u hatgyfodi, plant sydd eto i gael eu geni—yn etifeddu'r ddaear lân (Math 5:5; Ioan 5:28, 29; *g*87 7/22 9)

Oherwydd pridwerth Iesu, fe fydd pawb ohonyn' nhw'n edrych ymlaen yn hyderus at beidio byth â marw (Ioan 11:25, 26; *kl* 68-9)

Mi fydd Crist a'i 144,000 o gyd-deyrnaswyr yn y nefoedd yn sicrhau gweithredu geiriau'r weddi "gwneler dy ewyllys ar y ddaear" (Math 6:10)

Yn ddi-os, fe fydd y ddaear yn aros am byth, a bodau dynol ufudd fydd yn byw arni, yn union yn ôl gorchymyn dwyfol Jehofah (*w*84 2/15 4)

BYDD TROEDFAINC DDAEAROL DUW YN AROS AM BYTH—MI FEDRWCH CHITHAU HEFYD (7 mun.)

Mae bwriadau Jehofah yn anffaeledig, felly fe fydd beth bynnag mae e'n ei orchymyn "yn llwyddo" (Eseia 55:10, 11)

'Doedd y ffaith i Adda ac Efa wrthgilio ddim yn rhwystro bwriad Duw o weld dyn yn byw ar ddaear baradwys; mi fyddai'n sicrhau hynny hebddyn' nhw (Gen 1:28; Num 23:19)

Yn ystod Teyrnasiad Milflwyddiant Crist sydd i ddod, Eden fydd y ddaear gyfan a disgynyddion ufudd a hapus y pâr dynol cynta' yn byw yno

Hyd dragwyddoldeb, mi fydd 'na arbenigrwydd yn perthyn i'r ddaear na fydd yn perthyn i unrhyw blaned arall byth (*ws* 184 par. 10)

Mae Duw 'nawr yn casglu pobl o bob rhan o'r byd sy'n caru heddwch a'u ffurfio'n frawdoliaeth ryngwladol, a honno'n sail cymdeithas ddaearol newydd fydd yn aros am byth (*w*98 4/15 19; *dg* 28-31)

Braint Tystion Jehofah ydi'ch helpu chi i ddysgu am hyn ac i gyrraedd gofynion bod yn rhan ohoni (Ioan 17:3; 1Ioan 2:15-17)

Mi fydd y Ddaear, ein planed hardd ni yn aros

Bydd yn aros am byth—ac mi fedrwch chithau hefyd!

(Glynwch yn glòs at y deunydd sy' wedi'i amlinellu, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)